TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
cyswllt@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
contact@tfw.wales
tfw.wales

####
#####
#####
#####
###

###@###.co.uk

04 Ionawr 2021

Annwyl Mr ###

Diolch i chi am gysylltu â Trafnidiaeth Cymru. Mewn ymateb i'ch llythyr ynghylch 'pasbortau brechu' dyddiedig 8 Rhagfyr 2020, gallwn ni gadarnhau na fydd Trafnidiaeth Cymru yn rhoi cynllun o'r fath ar waith. Gan fod Trafnidiaeth Cymru yn ddarostyngedig i reoliadau Llywodraeth Cymru; a gan nad yw brechlyn COVID-19 yn orfodol; oni bai fod cael y brechlyn a gorfod cario pasbort brechu yn cael eu gwneud yn gyfraith (ynghyd â phwerau gorfodi), ni fydd hyn yn cael ei ystyried. Mae'r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd hefyd o'r un farn.

Er y bydd y brechlyn COVID-19 yn diogelu'r unigolyn sy'n ei dderbyn, mae gan Trafnidiaeth Cymru gyfrifoldeb i ddiogelu ei holl gwsmeriaid a'i staff, a bydd yn parhau i hyrwyddo a chadw ein mesurau diogelu fel glanhau trylwyr, cadw pellter cymdeithasol, a gofynion gorfodol o ran gorchuddion wyneb. Mae'r mesurau ataliol hyn yn cynnig amddiffyniad hanfodol i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau'n ddiogel, ac rydym ni'n parhau i ddilyn cyngor y Llywodraeth, y diwydiant a chyngor arbenigol y maes iechyd.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o

ddefnydd i chi. Yn gywir,

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH